



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Cynllun Gweithredu Cymru ar gyfer Pryfed Peillio

Crynodeb o'r Ymatebion i'r Ymgynghoriad
ar y Cynllun Gweithredu Drafft

Gorffennaf 2013



Tîm Bioamrywiaeth
Is-adran y Tir, Natur a Choedwigaeth
Rhodfa Padarn
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3UR

Ffôn: 0300 062 2285
E-bost: bioamrywiaeth@cymru.gsi.gov.uk

Lluniau'r clawr trwy garedigrwydd Vaughn Matthews, Michael J. Clarke, Jo Mullett,
Bumblebee Conservation Trust a Suzanne Moore Osley

WG19908
© Hawlfraint y Goron 2013
ISBN 978-1-4734-0350-5

Cynnwys

Cyflwyniad

Ymatebion

Rhestr Lawn o Ymatebwyr

Mentrau a Awgrymwyd mewn Ymatebion

Camau Nesaf

Cyflwyniad

Lansiwyd yr Ymgynghoriad ar y Cynllun Gweithredu Drafft Cymru ar gyfer Pryfed Peillio ar 9 Ebrill 2013 ac roedd ar agor i ymatebion tan 4 Mehefin 2013. Cyflwynwyd 6 o gwestiynau i gyd mewn profforma o fewn y ddogfen ymgynghori a hefyd ar ffurflen ar-lein er mwyn gallu ei dychwelyd yn rhwydd drwy e-bost. Roedd modd ymateb drwy e-bost uniongyrchol neu drwy'r post hefyd.

Roedd mwyafrif llethol yr ymatebion yn gadarnhaol iawn ynglŷn â'r hyn y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ei wneud i leihau dirywiad niferoedd pryfed peillio ac yn croesawu'r dull a gynigir yn y ddogfen ymgynghori. Hefyd, cyfrannwyd manylion llawer o fentrau cyfredol, mawr a bach, a materion cysylltiedig, at ein gwybodaeth. Rhoddir crynodeb o'r ymatebion yma, a byddwn yn cyhoeddi ymatebion llawn ar-lein yn www.cymru.gov.uk/consultations/?skip=1&lang=cy

Ymatebion

Derbyniwyd cyfanswm o 83 o ymatebion i'r ymgynghoriad hwn. O'r ymatebion, atebodd 69% y cwestiynau a ofynnwyd yn yr ymgynghoriad. Ymatebion ad hoc a gafwyd gan y 31% arall. Roedd yr ymatebion yn cynrychioli grwpiau sefydliadau fel a ganlyn:

Unigolion Preifat	39%
Cyrff Anllywodraethol	36%
Sefydliadau Ymchwil	10%
Sector Cyhoeddus	10%
Sefydliadau Preifat/Masnachol	6%

Roedd 79% o'r 83 a ymatebodd yn dod o Gymru.

Themâu Allweddol

Ystyriwyd yr holl ymatebion yn ofalus ac roedd sawl thema gyffredin:

- Roedd cefnogaeth eang i'r weledigaeth, y canlyniadau a'r meysydd ar gyfer gweithredu a gynigiwyd yn y cynllun.
- Roedd rhai themâu cyffredin ar gyfer gweithredu yn cynnwys diwygio cymorth i ffermwyr a mesurau amaeth-amgylcheddol, rheoli lleiniau ymyl ffordd, plaladdwyr, codi ymwybyddiaeth y cyhoedd a phryfed peillio gwyllt.
- Roedd llawer o ymatebion yn galw am gamau gweithredu manylach gyda thargedau a cherrig milltir wedi'u ddiffinio.

- Roedd cefnogaeth i fecanwaith llywodraethu ar gyfer y cynllun ac roedd sawl ymatebwr am weld cyllid ar gyfer rhoi'r camau gweithredu ar waith.
- Crybwyllodd sawl ymatebwr ymchwil pellach a'r angen i adeiladu sail dystiolaeth yng Nghymru.

Crynodeb o'r camau gweithredu a awgrymwyd

Mae Tabl 1 yn dangos y prif gamau gweithredu a awgrymwyd mewn ymateb i'r rhai a gynigiwyd yn y ddogfen ymgynghori, yn nhrefn eu poblogrwydd. Nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr, bydd ymatebion llawn yn cael eu cyhoeddi ar-lein hefyd fel y nodir uchod. Noder bod y canlyniadau a'r meysydd ar gyfer gweithredu a restrir isod wedi newid yn fersiwn derfynol y Cynllun Gweithredu ar gyfer Pryfed Peillio mewn ymateb i'r ymgynghoriad.

Canlyniad 1: Mae Cymru yn darparu cynefinoedd amrywiol a chysylltiedig sy'n llawn blodau i gynnal ein pryfed peillio

Maes Gweithredu 1: Hyrwyddo cynefinoedd blodeuol amrywiol a chysylltiedig ar draws tir ffermio
Gwella'r opsiynau a'r nifer sy'n cymryd rhan yn Glastir
Trefniadau torri ymyl ffordd a rheoli perthi yn fwy effeithiol
Cefnogi ac annog arallgyfeirio ar ffermydd
Cynlluniau ffermydd rhannol ar gyfer pryfed peillio y tu allan i Glastir
Dylid ymchwilio i egwyddorion Ffermio o Werth Mawr i Natur
Angen mynd i'r afael â dwysáu ffermio
Lleihau'r defnydd o blaladdwyr
Cywiro'r duedd tuag at amaethyddiaeth fel y prif reswm dros ddirywiad pryfed peillio
Anghytuno'n gryf gyda'r cyfeiriadau at gynyddu rheoleiddio yn yr adran 'Cynnal Cymru Fyw'

Maes Gweithredu 2: Hyrwyddo cynefinoedd blodeuol amrywiol a chysylltiedig ar draws cefn gwlad yn gyffredinol
Canolbwyntio ar greu cynefinoedd, adfer a chysylltedd, h.y. SINC
Canllawiau ar gyfer Awdurdodau Lleol, h.y. ar gyfer rheoli lleiniau ymyl ffordd

Plannu coetiroedd
Creu ac adfer perllannau
Yr angen i fynd i'r afael â rhywogaethau estron goresgynnol

Mae Gweithredu 3: Hyrwyddo cynefinoedd blodeuol amrywiol a chysylltiedig yn ein trefi, dinasoedd a'n hardaloedd datblygedig
Addasu'r dull o reoli lleiniau ymyl ffordd a darparu cefnogaeth ac arweiniad ar gyfer Awdurdodau Lleol
Annog pobl i beidio â selio gerddi a chefnogi gofodau gwyrdd trefol
Y diwydiant garddwriaeth a chanolfannau garddio i hyrwyddo cynhyrchion cyfeillgar i bryfed peillio a hysbysu'r cyhoedd am broblemau Rhywogaethau Estron Goresgynnol

Canlyniad 2: Mae gan Gymru boblogaethau iach o bryfed peillio

Mae Gweithredu 4: Cefnogi camau gweithredu yn y DU i hyrwyddo poblogaethau iach o bryfed peillio yng Nghymru
Lleihau'r defnydd o blaladdwyr, sef neonicotinoidau yn bennaf
Nid neonicotinoidau yw prif achos y gostyngiad yn niferoedd pryfed peillio

Canlyniad 3: Mae gan ddinasyddion Cymru yn fwy gwybodus ac ymwybodol o bwysigrwydd pryfed peillio a'r gwaith o'u rheoli

Maes Gweithredu 5: Gweithio i godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd pryfed peillio a chynnwys ein dinasyddion yn y gwaith o'u rheoli
Mae angen ymgyrch Ymwybyddiaeth Genedlaethol a dwyn ynghyd arbenigwyr a'r rhai sy'n gallu rhannu gwybodaeth a phrofiadau
Addysg ar bob lefel, h.y. pecynnau pryfed peillio ar gyfer ysgolion
Cyfathrebu'n effeithiol â thirfeddianwyr drwy Gwlad

Canlyniad 4: Mae gan Gymru bolisi cydgysylltiedig, trefniadau llywodraethu a sail gadarn o dystiolaeth ar gyfer gweithredu er lles pryfed peillio

Maes Gweithredu 6:

Uno polisïau Llywodraeth Cymru i lunio camau gweithredu buddiol sy'n dda i bryfed peillio ac felly iechyd yr ecosystem ehangach

Mae'r cynllun yn annelwig iawn a heb gamau gweithredu clir. Mae angen camau gweithredu a thargedau mesuradwy sydd wedi'u diffinio

Cyllid digonol a thargedau a chatau gweithredu wedi'u diffinio'n glir

Mae angen dull integredig

Maes Gweithredu 7:

Creu sylfaen o dystiolaeth i gefnogi camau gweithredu ar gyfer pryfed peillio yn y dyfodol

Mae angen mwy o gyllid ar gyfer monitro, ymchwil a data llinell sylfaen

Mentrau a Awgrymwyd mewn Ymatebion

Awgrymwyd mentrau penodol pellach, er enghraifft:

- Trefniadau torri – gweithio gyda chynghorau i leihau nifer y lleiniau ymyl ffordd sy'n cael eu torri
- Cymru yn ei Blodau – newid meini prawf i gynyddu pwyntiau ar gyfer y rhai sy'n gwneud pethau i gynyddu niferoedd pryfed peillio.
- Canolfan Ragoriaeth i gydgyssylltu'r holl arbenigedd a'r mentrau cyfredol i gynyddu'r wybodaeth a'r ymwybyddiaeth a rennir.
- Pecynnau Pryfed Peillio mewn ysgolion – Gwaith pellach mewn ysgolion i newid canfyddiadau ac agweddau'r genhedlaeth nesaf drwy gynnal gweithdai ac ehangu gwaith cyfredol y Rhaglen EcoYsgolion.
- Cofrestr ar gyfer Llecynnau tir Cyfeillgar i Bryfed Peillio a chael rhywfaint o gydnabyddiaeth ac amddiffyniad iddynt at y dyfodol, h.y. gwarchodfeydd preifat ac ardaloedd cadwraeth.
- Cynghorau i hyrwyddo cadw gwenyn ar eu holl randiroedd.
- Gellid anfon pecynnau hadau cyfeillgar a phecynnau creu cynefinoedd i wenydd i aelwydydd yng Nghymru.
- Cynlluniau ffermydd rhannol a fyddai'n gymwys i dyddynwyr a ffermwyr sy'n amharod neu'n methu ag ymuno â Glastir.

Rhestr Lawn o Ymatebwyr

1. Cyrff Anllywodraethol

Cyfeillion y Ddaear y Fenni a Chrucywel

Bees for Development

Buglife

Bumblebee Conservation Trust

Butterfly Conservation Wales

Coed Cadw

Cymdeithas Eryri

Denmark Farm Conservation Centre

Undeb Amaethwyr Cymru

Cyfeillion y Ddaear Cymru

Garden Organic

Cadwch Cymru'n Daclus

Canolfan Ddarganfod Margam, Cyngor Astudiaethau Maes

Merthyr Tydfil & District Naturalists Department

Grŵp Gweithredu Lleol Cynllun Datblygu Gwledig Sir Fynwy

Canolfan Genedlaethol Cadw Gwenyn Cymru

Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru

Ffederasiwn Cenedlaethol Sefydliadau'r Merched

Parciau Cenedlaethol Cymru

Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru

Rhwydwaith Bioamrywiaeth Gogledd Ddwyrain Cymru

Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru

Cymdeithas Cadw Gwenyn Sir Benfro

RSPB Cymru

Grŵp Ecosystem Glaswelltir a Gweundir Iseldir Partneriaeth
Bioamrywiaeth Cymru

Grŵp Arbenigwyr Rhywogaethau Partneriaeth Bioamrywiaeth
Cymru

Grŵp Ecosystem Trefol Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru

Cyswllt Amgylchedd Cymru

Cymdeithas Gwenynwyr Cymru

Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt Cymru

Unigolion Preifat

Dr Adam Vanbergen

Amanda (Wheeler) Martin

Annie Paine

Anthony Griffiths

Carol Keys-Shaw

Carolyn Thomas

Chrissie Bussingham

Christina Davison

David Purdon

Debbie Harding

Di Webster

Dr Fiona Doonan

Fiona Lanc

Gwen Potter

Heather MacLehose

Ian Rabjohns

Ilyan Thomas

J Prince

Yr Athro Jane Memmott

James Davies

John Mosedale

Dr Katherine Baldock

Kerry Lane

Les Wilkins

Liz Fleming-Williams

Lizzie Jones

Lynn Ashraf

Dr Lynn Dicks

Meryl Davies

Molly Lear

Nigel Mosse

Dr Oliver Prys-Jones

Peter Bissmire

Ray Woods

Yr Athro Robert Paxton

Roselle Angwin

Salena Walker

Simon Potts

Dr Stephen Head

Susan Loose

Violet McLaughlin

2. Sefydliadau Ymchwil

Centre for Regulatory Effectiveness

Environment Systems

3. Sefydliadau Preifat / Masnachol

Atlas and Partners - Architectural Services

Country Land & Business Association

Matt Sutton Ecology

4. Sector Cyhoeddus

Adran Cefn Gwlad – Rhondda Cynon Taf

Cyngor Sir Ynys Môn

Cyfoeth Naturiol Cymru

Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot

Camau Nesaf

Lansiwyd Cynllun Gweithredu terfynol ar gyfer Pryfed Peillio yn Sioe Frenhinol Cymru ar 23 Gorffennaf 2013 gan Alun Davies AC, y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd.

Mae'r Cynllun Gweithredu'n cynnwys Cynllun Cyflawni drafft sy'n rhoi manylion nifer o ffrydiau gwaith a fydd yn cael eu datblygu gan y Tasglu Pryfed Peillio ac o fewn Llywodraeth Cymru. Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn gweithio gyda Llywodraeth y DU hefyd wrth iddynt weithio tuag at Strategaeth Pryfed Peillio Genedlaethol.

Rydym yn cydnabod y gwaith rhagorol sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd gan lawer ledled Cymru, ac mae'r angen am bartneriaeth, a'r dull integredig sydd ei angen wrth ddarparu er lles bioamrywiaeth, yn sail i'r holl feysydd gweithredu ar gyfer pryfed peillio.

Felly'r cam cyntaf i weithredu'r Cynllun fydd sefydlu Tasglu Pryfed Peillio. Un o'r tasgau allweddol ar gyfer y grŵp hwn fydd llunio canllawiau arferion gorau ar gyfer rheolwyr tir a llunwyr polisi yn y sectorau cyhoeddus a phreifat. Bydd cynllun cyfathrebu ac ymgyrch ymwybyddiaeth hefyd yn flaenoriaeth, ynghyd â nodi anghenion a ffynonellau adnoddau yn y dyfodol.